

## Ceisiadau ysgolion ar gyfer Dragon's Den

### **Gradd fathemateg sy'n addas ar gyfer yr 21<sup>ain</sup> Ganrif (Yr Ysgol Gyfrifiadureg a Mathemateg)**

Gradd fathemateg wedi'i hailwampio sy'n symud oddi wrth y dull traddodiadol, er mwyn darparu rhaglen radd sy'n seiliedig ar brosiectau. Yn lle modiwlau, bydd pob blwyddyn yn canolbwyntio ar sawl prosiect fydd wedi'u cynllunio i ryngweithio â'r diwydiant a fydd yn dysgu mathemateg drwy broblemau presennol o'r byd go iawn.

Bydd pwyslais ar ddefnyddio technoleg o'r radd flaenaf, a gwaith rhyngddisgyblaethol er mwyn paratoi ein myfyrwyr i lwyddo mewn cyflogaeth ar ôl graddio.

### **Gwella Cyflogadwyedd drwy Ail-ddychmygu'r Amserlen (Yr Ysgol Beirianeg)**

Mae angen ailfeddwl radical ar y ffordd rydyn ni'n strwythuro ein hamserlen ac yn dysgu, er mwyn hwyluso rhagor o ryngweithio rhwng Cyflogwyr a Myfyrwyr o fewn cyfyngiadau'r calendr academaidd traddodiadol, gan ddatblygu taith y myfyriwr o ran disgwyliadau proffesiynol a rhoi amser i gyd-destunoli cymwysiadau meysydd pwnc yn y byd go iawn mewn ffordd wirioneddol drochol ac aml-ddull.

### **'ABC' i Lwyddiant Graddedigion – Disgwyliadau Myfyrwyr yn y Gwyddorau Cymhwysol**

Bydd y prosiect yn canolbwyntio ar:

Ddatblygu disgwyliadau myfyrwyr Ysgol y Gwyddorau Cymhwysol fel a ddiffinnir gan fframwaith o Nodweddion, Ymddygiadau a Galluoedd Graddedigion.

Cynyddu cyflogadwyedd graddedigion drwy godi ymwybyddiaeth a lefelau ymgysylltu â Nodweddion, Ymddygiadau a Galluoedd Ysgol y Gwyddorau Cymhwysol.

Bydd hyn yn sicrhau llwyddiant ym maes cyflogaeth i'n graddedigion, gan gynnal ein cymuned o fyfyrwyr a chael effaith ar gymunedau yn lleol, yn genedlaethol ac yn Rhyngwladol.

## School pitches for Dragon's Den

### **A mathematics degree fit for the 21<sup>st</sup> Century (School of Computing & Mathematics)**

A revamped mathematics degree that moves away from the traditional setup to provide a project-based degree programme. Instead of modules, each year will focus on multiple projects that will be set up to interact with industry and teach mathematics through current, real-world problems.

An emphasis will be placed on the use of cutting-edge technology and interdisciplinary work to set our students up for success in graduate employment.

### **Enhancing Employability through a Re-Imagined Timetable (School of Engineering)**

Facilitating significantly increased Employer-Student interaction within the confines of a traditional academic calendar, developing the student journey in terms of professional expectations and providing time for truly immersive, multi-mode contextualisation of real-world applications for subject areas, requires a radical re-imagination of how we structure our Timetable and deliver learning

### **Graduate 'ABCs' to Success – Student Expectations in Applied Sciences (SEApS)**

The project will focus on:

Developing the student expectations of the School of Applied Sciences (SEApS) - as defined by a framework of transferable Graduate Attributes, Behaviours and Capabilities (ABCs).

Increasing graduate employability through raising the awareness of and engagement with the School of Applied Sciences ABCs.

This will ensure successful graduate employment, maintaining the sustainability of our student community and impacting on local, national and International communities.